

Giles Thorley
Prif Weithredwr, Banc Datblygu Cymru

7 Chwefror 2019

Annwyl Giles

Craffu ar yr adroddiad blynyddol gyda Banc Datblygu Cymru

Ysgrifennaf i ddiolch i chi a'ch cydweithwyr am fynychu cyfarfod y Pwyllgor heddiw i drafod y cynnydd o ran gweithgareddau Banc Datblygu Cymru gyda'r Aelodau. Roedd yn dda clywed stori gadarnhaol am gynnydd y Banc yn erbyn targedau buddsoddi hyd yma, a gweld cyflwyniad mwy tryloyw o wybodaeth ariannol yn yr adroddiad blynyddol, sef rhywbeth yr oedd y Pwyllgor wedi'i argymhell y llynedd.

Yn syth ar ôl sesiwn graffu fore heddiw, cafodd y Pwyllgor dystiolaeth ar gyfer ymchwiliad newydd i rwystrau ar gyfer cwmnïau adeiladu cartrefi bach, ac felly roedd tystiolaeth y Banc Datblygu am fenthyca o dan y Gronfa Datblygu Eiddo a'r Gronfa Safleoedd Segur yn arbennig o ddefnyddiol inni.

Un o'r materion a gododd o'n sesiwn gyda Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru, Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr Cymru a Hygrove Homes oedd yr effaith gadarnhaol y mae'r ddwy gronfa hynny, yn enwedig y Gronfa Datblygu Eiddo, wedi'i chael yn cynorthwyo'r chwaraewyr presennol yn y sector adeiladu cartrefi drwy ddarparu hylifedd. Nodwyd, oherwydd nad yw cymorth ariannol ar gael hyd nes bod caniatâd cynllunio wedi'i roi, mae hyn yn atal llawer o fusnesau bach rhag mynd i mewn i'r sector adeiladu cartrefi, ac maent yn aros yn gweithio mewn meysydd eraill megis atgyweiriadau neu welliannau i'r cartref yn lle hynny. Fodd bynnag, gwnaethoch ddweud bod y Banc Datblygu wedi rhoi benthyg cyfalaf gweithio i fusnesau mwy o faint yn fwy cyffredinol, a allai helpu tuag at gostau cynllunio.




Hefyd, roedd Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr Cymru yn argymhell yn gryf y gallai cynyddu'r trothwy ar gyfer diffinio 'datblygiad mawr', o 10 uned o dai i rywbeth yn agosach at 50, helpu cwmnïau adeiladu cartrefi llai rhag dod yn rhan o'r farchnad oherwydd y broses gynllunio llai beichus a chostus islaw'r trothwy hwn. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael barn Banc Datblygu Cymru ar y materion hyn, i'w ystyried fel rhan o'i ymchwiliad cyfredol.

Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at graffu ar adroddiad blynyddol y Banc Datblygu ar gyfer y flwyddyn 2018-19 yn y dyfodol. Mae'r Pwyllgor yn nodi y bydd rhagor o wybodaeth am ddangosyddion perfformiad allweddol, gan gynnwys allyriadau carbon a dangosyddion cydraddoldeb, yn cael ei chynnwys mewn adroddiad effaith gan y Banc ar gyfer 2019-20, ond byddai unrhyw ddata ychwanegol ar gyfer y flwyddyn 2018-19 y gellir eu darparu i'r Aelodau yn ddefnyddiol, i'w helpu i feincnodi'r effeithiau hynny. Yn yr un modd, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael unrhyw ddadansoddiad sydd gan y Banc ar ansawdd y swyddi y mae'n eu creu a'u diogelu, a sut y mae hyn yn cymharu â blynyddoedd blaenorol.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn edrych ymlaen at weld adroddiadau pwrpasol y Banc Datblygu ar gyllid allforio a chlystyrau ecwiti maes o law.

Yn gywir



Russell George
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

